**Cyngor Cymuned Llandyfriog,**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd Medi 2024,**

**Yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog am 7.30 y.h.**

**o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Rhys ap Tegwyn.**

**1A Yn bresennol.**
Y Cynghorwyr – Rhys ap Tegwyn, Elonwy James, Ann Jones, Ian James, Alan Davies, Derrick Riachards,

**1B Ymddiheuriadau,**
Y Cynghorwyr - Carol Davies, Wyn Thomas, Branwen Davies, Meinir Thomas, Ken Jones

**1C Cadarnhau Cyfnodion**. 2/7/2024
Cynnig Y Cynghorydd Elonwy James
Eilio gan Y Cynghorydd Ian James

**1D Materion yn codi**
Dim iw trafod.

**2) Heddlu.**
Cafwyd ymddiheuriadau wrth y swyddogion Jeff Kedward a Leah Jones.

**3) Cynllunio.**
H Morgan, Llwynmailis, Adpar, Lloyds Terrace, Castellnewydd Emlyn. - A240553
Proposed Alterations & Replacement Front Bay

Dim Gwrthwynebiad.

**4) Gohebiaeth.**
Llythyr wrth Elin Jones AS/MS Ceredigion
Ynglyn a Holiadur, Teithio Ar Fws mewn Ardaloedd Gwledig.

Cafwyd llythyr wrth Steffan Llyr Jackson ynglyn a sedd yn wag gan y Cyngor Cymuned. Roedd y Cyngor yn gytun fod Steffan yn cael ei dderbyn fel Cynghorydd.
Llythyr iw anfon iw wahodd i gyfarfod mis Hydref.

Darllenwyd Llythyr wrth y Parchedig Carys Ann Lewis yn gofin i'r Cyngor Cymuned am gefnogaeth i gais am gymorth ariannol oddiwrth y Cyngor Sir, ar ran Capel Bryngwenith, ar gyfer ail weirio y Capel.
Pawb yn gytun fod y Clerc yn anfon llythyr o gefnodaeth iw cais.

Y Cynghorydd Elonwy James, yn datgan diddordeb.

**5) Materion Ariannol**

| | |
|---|---|
| Anwen Evans | £1057.60 (Awst a Medi) |
| Gillian Davies | £602.36 (Awst a Medi) |
| Janet Jones int Audit | £80.00 |
| SSE Energy | £16.27 (Awst) |
| | |
| Cyfanswm | £1756.23 |

Cynnig gan y Cynghorydd Alan Davies
Eiliwyd gan y Cynghorydd Ian James

**5) Materion Eraill**

Y Cynghorydd Ian James yn codi yr angen am sedd yn Penrhiwllan, Ger y Safle Bws.
Y Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor ac i Barcud.

Mae yna ddwy garreg filltir gwyn yn Penrhiwllan a Llandyfriog, angen ei peintio ?

Mae angen anfon llythyr ir Cyngor Sir, ynglyn a wal sydd wedi syrthio ger y bont yn Hellan
Lluniau gan y Cynghorydd Ian James iw hanfon ymlaen.

Mae na lawer iawn o goed yn tyfu ger y bont ac angen ei torri.
Anfon llythyr I Ceredigio i edrych arnynt.

Angen golau yn y Bus Shelter yn Henllan.
Y Clerc I gysylltu gyda Mr Jo Thomas i weld beth sydd yn bosib.

Penwythnos Gerdded / Walking Weekend 20/09/2024 – 22/09/2024 Croeso i Gerddwyr Llandysul a Pont – Tyweli.

***Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar y 1af o Hydref am 7.30 or gloch yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog.***

**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF.**

**Yn Bresennol**
**Ymddiheuriadau**
**Cadarnhau'r Cofnodion**
**Materion yn codi**
**Heddlu**
**Cynllunio**
**Gohebiaeth**
**Cyllid Taliadau**
**Materion Eraill**
**Dyddiad y Cyfarfod nesaf.**
**Adroddiad wrth y Cynghorydd Sir Wyn Thomas.**